**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 7 Mai 2020 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | R Francis-Davies | D H Hopkins |
| A S Lewis | C E Lloyd | S Pritchard |
| J A Raynor | M Thomas | |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): A Pugh

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A H Stevens

---

## 192. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwr M C Child gysylltiad personol â Chofnod 198 "Cyllid ar gyfer cynllun Tai â Chefnogaeth Brys neu Dros Dro ar gyfer pobl Ddigartref a Diamddiffyn yn ystod Argyfwng Covid-19 - Tŷ Tom Jones".

## 193. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### 1) Ysbyty yn Stiwdio'r Bae, Ffordd Fabian

Datganodd Arweinydd y Cyngor y caiff yr ysbyty yn Stiwdio'r Bae ei drosglwyddo'n ffurfiol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn hwyrach y diwrnod hwnnw. Diolchodd i bawb a fu'n ymwneud ag adeiladu'r ysbyty.

**2) Rhoi Clap i Ofalwyr a Gweithwyr Rheng Flaen**

Talodd Arweinydd y Cyngor deyrnged i ofalwyr a gweithwyr rheng flaen a gofynnodd i bobl dalu teyrnged iddynt trwy roi clap iddynt am 8.00pm yn hwyrach y diwrnod hwnnw. Dywedodd hefyd y byddai Neuadd y Ddinas yn cael ei goleuo'n las heno i ddangos cefnogaeth.

## 194. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 195. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 196. Bargen Ddinesig Bae Abertawe - Cyflwyno Achos Busnes ar gyfer Prosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pwer

Cyflwynodd Arweinydd y cyngor adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Achos Busnes Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer Bargen Ddinesig Bae Abertawe ac, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Gyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe, awdurdod i'w gyflwyno'n ffurfiol i Swyddfa Rheoli'r Portffolio yn unol â Chynllun Gweithredu'r Fargen Ddinesig.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo achos busnes Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer yn Atodiad 1 yr adroddiad ac, yn amodol ar gymeradwyaeth Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe, awdurdodi ei gyflwyno'n ffurfiol i Swyddfa Rheoli'r Portffolio yn unol â Chynllun Gweithredu'r Fargen Ddinesig i sicrhau cymeradwyaeth ariannol y Fargen Ddinesig;

2) Rhoi awdurdod dirprwyedig i Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau i'r achos busnes yn dilyn unrhyw sylwadau a wneir gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU neu a all fod yn ofynnol gan Gyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe;

3) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Lleoedd mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151), Arweinydd y Cyngor ac Aelod perthnasol y Cabinet i ymrwymo i unrhyw gytundebau grant neu ddogfennaeth gysylltiedig a allent fod yn angenrheidiol er mwyn defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru/Llywodraeth y DU fel corff atebol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

## 197. Dyfarnu Contract Ail Gam (Adeiladu) Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol ac awdurdodi'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Prosiect Ailfodelu ac Adnewyddu yn Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn ceisio:

i) Cymeradwyo ac ymrwymo i'r Rhaglen Gyfalaf, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol, y prosiect gyda chostau diwygiedig ar gyfer ailfodelu ac adnewyddu Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt yn amodol ar gadarnhad grant a chytundeb â Llywodraeth Cymru;

ii) Cael awdurdodiad i ddyfarnu'r contract ail gam i Kier Western Ltd, yn amodol ar gadarnhad grant a chytundeb â Llywodraeth Cymru;

iii) Cael awdurdodiad i ymrwymo cyfanswm o £13,8080,024.29 i'r rhaglen gyfalaf i ariannu costau'r cam adeiladu.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Dyfarnu'r contract ail gam ar gyfer ailfodelu ac adnewyddu yn Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt i Kier Western Ltd, yn amodol ar gadarnhad grant a chytundeb â Llywodraeth Cymru;

2) Cymeradwyo'r cynllun cyfalaf fel y'i disgrifiwyd yn yr adroddiad ynghyd â'r goblygiadau ariannol yn unol â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol, a hynny'n amodol ar gadarnhad grant a chytundeb â Llywodraeth Cymru.

**198. Cyllid ar gyfer cynllun Tai â Chefnogaeth Brys neu Dros Dro ar gyfer pobl Ddigartref a Diamddiffyn yn ystod Argyfwng Covid-19.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid adroddiad a oedd yn amlinellu prosiect a oedd yn ymateb yn uniongyrchol i'r sefyllfa Covid-19 bresennol. Comisiynwyd y prosiect i ddechrau defnyddio Tŷ Tom Jones (a adwaenir hefyd fel The Foyer) ar Heol Alexandra, Abertawe, unwaith eto fel llety ar gyfer hyd at 20 o bobl sengl.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r prosiect a nodwyd ym mharagraff 2.2 yr adroddiad;

2) Roi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Lleoedd, y Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Prif Swyddog Cyllid i ymrwymo i unrhyw gytundebau angenrheidiol i sicrhau y caiff y prosiect ei gyflwyno ac i ddiogelu buddion y cyngor;

3) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Lleoedd a'r Prif Swyddog Cyllid i adennill yr holl wariant sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r prosiect o Lywodraeth Cymru;

4) Adolygu'r prosiect ymhen chwe mis pan fydd darlun cliriach o effaith COVID-19 a'r gofynion angenrheidiol parhaus.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.01 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 7 Mai 2020 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 13 Mai 2020 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 14 Mai 2020 |